

Diweddariad Prosiect

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda yn ystod cam cyntaf y prosiect. Hyd yn hyn, rydym wedi cwblhau'r cliriad safle ac wedi tynnu ymaith y lloches bws, hysbysfwrdd, meinciau a llusernau o'r sgwâr.

Cynhaliwyd arolygon o gyflwr eiddo hefyd yn ystod yr wythnos yn dechrau'r 21^{ain} Hydref ar y busnesau yng nghyffiniau'r gwaith.

Rydym yn ymgymryd â'r canlynol ar hyn o bryd:

- Gwaith draenio
- Adeiladu pwll coed
- Gosod bolard golau a phibellau uwch-oleuo
- Cloddio er mwyn ffurfio
- Gosod/cywasgu'r is-sylfaen
- Cychwynwyd ar yr arolygon eiddo ac maent ar fynd

Gwaith i ddod

Yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr, byddwn yn parhau â'r gwaith o osod a draenio'r pwll coed yng Ngham 1, ac yn ei gwblhau. Yn ogystal â hyn, byddwn yn cynnal gwaith meini, tarmac a gosod y slabiau newydd i'r sgwâr. Bydd y gwaith hefyd yn cychwyn ar ochr arall y ffordd, gan gynnwys adeiladu wal gynnal newydd, gosod pwll coed, dwythellau a draeniau.

Sesiynau Galw Heibio Cymunedol

Mae'n bleser gennym eich hysbysu y byddwn yn cynnal sesiynau "Galw Heibio Cymunedol" bob pythefnos hyd at y Nadolig.

Bydd ein Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd Georgie Dixon ar gael i ddarparu gwybodaeth am y prosiect, fel ein rhaglen adeiladu, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn Llyfrgell Cil-y-coed ar y dyddiadau canlynol, mae croeso i chi alw heibio ar unrhyw bwynt rhwng yr amseroedd fel a ganlyn:

Dydd Mercher 6^{ed} Tachwedd 10am – 12pm

Dydd Mercher 20^{fed} Tachwedd 10am – 12pm

Dydd Mercher 4^{ydd} Rhagfyr 10am – 12pm

Griffiths in the Community

SWYDD WAG: Dewch i ymuno â'n tîm

Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am berson lleol o ardal Cil-y-coed i ymuno â thîm ein safle fel dyn/menyw iard. Bydd hwn yn swydd amser llawn am gyfnod y contract. Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda ni neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Georgie Dixon.

Cyllid Prosiect Cymunedol: Fel rhan o'r prosiect, rydym wedi sefydlu Cronfa Achosion Da Cymunedol ac rydym yn gwahodd sefydliadau elusennol o ardal Cil-y-coed i gysylltu â ni i gael cymorth. Os oes gennych sefydliad neu fenter sydd angen help, cysylltwch â Georgie Dixon ar y manylion isod. Y tîm prosiect a Chyngor Sir Fynwy fydd yn penderfynu ble i wario'r arian a bydd hynny'n seiliedig ar yr effaith gadarnhaol a gaiff ei rhoi ar y gymuned.

Gwefan y prosiect: Rydym yn gweithio ar gael tudalen we wedi'i sefydlu ar gyfer y cynllun. Rydym yn gobeithio y bydd hyn ar waith dros yr wythnosau nesaf. Cadwch olwg ar www.community.alungriffiths.co.uk

